# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 27(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: yr UE - Trefniadau Pontio

(30 munud)

## Cwestiynau Brys

**Cwestiwn Brys 1**

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Dir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam y cafodd y gweinyddwyr eu galw i Main Port Engineering yn Sir Benfro, er gwaethaf i'r cwmni gael grant o £650,000 gan Lywodraeth Cymru?

**Cwestiwn Brys 2**

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau paediatrig yn Ysbyty Llwyn Helyg?

**Cwestiwn Brys 3**

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:

**Simon Thomas (Caolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i drydedd rhedfa yn Heathrow?

**Cwestiwn Brys 4**

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:

**Lee Waters (Llanelli):** Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i Lywodraeth y DU ynghylch penderfyniad y Swyddfa Gartref i beidio â chynnal ymchwiliad i ddigwyddiadau yn Orgreave?

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Yr Adolygiad Seneddol i Wasanaethau Iechyd a Gofal

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol

(30 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Y Targed o 20,000 o Dai Fforddiadwy

(30 munud)

**Dogfennau Ategol**

Darpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru, 2015-16 (Saesneg yn unig)
Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)

## 7 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Tasglu Gweinidogol ar y Cymoedd

(30 munud)

## 8 GOHIRIWYD TAN 22 TACHWEDD: Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Canolbwyntio ar Allforion

(0 munud)

## 9 GOHIRWYD TAN 15 TACHWEDD: Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf

(0 munud)

## 10 Dadl: Adolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer 2015-2016

(60 munud)

**NDM6127** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 2015-16, "Tuag at Gymru Decach"

Adroddiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru 2015-16, "Tuag at Gymru Decach"

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Undebau Llafur a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i hyrwyddo hawliau mamau ifanc beichiog a mamau newydd yn y gwaith yn well.

Gwelliant 2. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r clinig hunaniaeth rhywedd i Gymru sydd i gael ei sefydlu yn sgil trafodaethau Plaid Cymru mewn perthynas â chyllideb 2017-18.

Gwelliant 3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r saith brif her y mae angen mynd i'r afael â hwy yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, fel y nodwyd gan y Comisiwn, ac y bydd angen ymdrechion sylweddol ar ran sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, ac ar ran unigolion i leihau'r heriau hyn.

Gwelliant 4. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu cydnabyddiaeth y Comisiwn bod angen ymgysylltu â'r sector gwirfoddol a chymunedol a'i rymuso.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 2 Tachwedd 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27 Hydref 2016
# i'w hateb ar 1 Tachwedd 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddigwyddiadau mawr yng Nghanolbarth Cymru? OAQ(5)0228(FM)

2. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â digartrefedd yn ne Cymru? OAQ(5)0225(FM)

3. Gareth Bennett (Canol De Cymru): Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o reolau lobïo sy'n gymwys yn llywodraethau eraill y DU? OAQ(5)0238(FM)

4. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau ardrethi busnes yng Nghymru? OAQ(5)0231(FM)

5. Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwerau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoleiddio tân gwyllt? OAQ(5)0237(FM)

6. Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sicrhau bod dyddiaduron Gweinidogion ar gael i'w craffu gan y cyhoedd? OAQ(5)0235(FM)

7. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ystod y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0232(FM)

8. Michelle Brown (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(5)00230(FM)

9. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch asesiadau effaith ieithyddol ym maes cynllunio? OAQ(5)0226(FM)**W**

10. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): Beth oedd canlyniad trafodaethau yn ystod cyfarfod diweddar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion? OAQ(5)0234(FM)**W**

11. Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn Arfon? OAQ(5)0227(FM)**W TYNNWYD YN ÔL**

12. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru? OAQ(5)0233(FM)

13. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau diweddar â Llywodraeth y DU ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0229(FM)

14. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y bwriad i ailagor y llinell reilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin? OAQ(5)0236(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Cyhoeddir agenda'r Cyfarfod Llawn wythnos cyn pob cyfarfod, a gellir ei gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**
**dydd Mawrth 8 a dydd Mercher 9 Tachwedd 2016**
**dydd Mawrth 15 a dydd Mercher 16 Tachwedd 2016**
**dydd Mawrth 22 a dydd Mercher 23 Tachwedd 2016**

---

**Dydd Mawrth 8 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Y Cynnig Gofal Plant i Gymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Cymru Hanesyddol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Nodi Dydd y Cofio a Chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cymru o Blaid Affrica (30 munud)

**Dydd Mercher 9 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ddyfodol polisïau gwledig ac amaethyddol yng Nghymru (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 15 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ysgolion Gwledig (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Blwyddyn Chwedlau (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf (30 munud)
- Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2016 (15 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2015/16 (60 munud)

**Dydd Mercher 16 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18 (30 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer - Hefin David (Caerffili) (30 munud)

**Dydd Mawrth 22 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Rhentu Doeth Cymru (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Canolbwyntio ar Allforion (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Diwydiant Bwyd a Diod (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Diwrnod Rhyngwladol i Ddileu Trais yn erbyn Menywod (30 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (15 munud)

**Dydd Mercher 23 Tachwedd 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) (30 munud)